

POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2009

Mabwysiadodd Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Gynllun Iaith Gymraeg o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 30 Awst 2007. Mae rhan 6.4 o'r cynllun yn mynnu fod y Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y cynllun, bod y cyhoedd yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad, a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Penodwyd Cyngorwyr Rob Phillips, Dorothy Williams, Chris Thomas, Selwyn Walters a Chlerc y Dref i Bwyllgor Iaith Gymraeg i gyflwyno'r adroddiad blynyddol. Nid yw'r adroddiad hwn yn sylwi ar bob pwynt gweithredu yn y cynllun, dim ond y rhai lle mae angen nodi llwyddiant neu argymhell newid ar gyfer y dyfodol

3 CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

Cymerodd y cyngor les ar Gae Maesyderi yn ystod y flwyddyn er mwyn darparu cyfleusterau i bobl ifanc. Mae arwyddion ar y cae yn ddwyieithog. Prynwyd arwyddion dwyieithog ar gyfer mynedfeydd i'r dref a Pharc-yr-Orsedd.

4 YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

Mae'r cyngor wedi derbyn nifer o llythyron ac e-byst yn y Gymraeg ac maent wedi cael eu hateb yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y Cyngor yn croesawi gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi cael ei nodi ar bob llythyr sy'n mynd allan.

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus ar gyfer Cae Maesyderi ar y 19 o Fawrth 2009. Hysbysebwyd y cyfarfod yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ond ni ofynwyd am offer cyfieithu.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y cyngor wefan newydd. Mae gwefan yn ddwyieithog ac yn cynnwys cofnodion a dogfennau'r cyngor. Mae pob cyhoeddiad newydd sy'n dod o dan y Cynllun Iaith ar gael yn y Gymraeg a Saesneg. Mae nodyn ar waelod pob e-bost o'r Cyngor yn hysbysebu'r derbyniwr fod croeso iddynt e-bostio yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r clerc wedi mynegi pryder nad oes digon o amser i gyfieithu pob dogfen yn yr oriau a glustnodwyd ar gyfer cyfieithu. Er nad oes rhaid i bob dogfen mewnlod y cyngor fod yn ddwyieithog yn ôl y Cynllun Iaith Gymraeg, dylid darparu copiau yn y Gymraeg a'r Saesneg lle bo hynny'n bosibl.

5. GWYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

Mae papur pennod, gwefan ac e-bost y Cyngor yn ddwyieithog. Mae neges ar bapur pennawd ac e-byst y Cyngor yn nodi ein bod yn croesawi gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd Western Mail & Echo Ltd llawlyfr i Llanbedr Pont Steffan. Nid oedd gan y cyngor unrhyw cyfrifoldeb neu dylanwad golygyddol ar y llyfr ond darparwyd anerchiad y Maer yn y Gymraeg a'r Saesneg ac fe'i cyhoeddwyd yn y ddwy iaith.

Mae'r rhaglen a gyhoeddir gan y Cyngor ar gyfer Sul y Cofio yn ddwyieithog.

Mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg wrth rhoi grantiau, ac erbyn hyn mae ffurflen i'r rhai sy'n gwneud cais am arian lenwi, er mwyn esbonio sut mae nhw'd adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal. Mae hyn yn newid i'r drefn sydd wedi bod yn weithredol am nifer o flynyddoedd, ac erbyn hyn nid yw'r canran sy'n dychwelid y ffurflen yn uchel iawn.

Gwnaethpwyd cyfraniadau sylweddol i Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen, Gŵyl Dewi Drwg, Urdd Gobaith Cymru (yn lleol ac yn gendelaethol) a'r Eisteddfod Genedlaethol yn ystod y flwyddyn.

Ail-enwyd ardal a oedd wedi adnabod fel Parc Brenin Sior V yn Parc Sant Germain-Siur-Moine er mwyn cydnabod ein gefeilldref. Mae'r enw yn cydymffurfio a'r Cynllun Iaith.

6. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Argymhellir dylid rhoi datganiad i'r Cambrian News a'r Carmarthen Journal a hysbyseb yn Clonc i hysbysebu'r adolygiad blynyddol a gofyn am sylwadau. Argymhellir gosod copïau ar wefan y Cyngor ac yn y llyfrgell. Bydd copïau ar gael oddi wrth y Clerc.

**Is-Bwyllgor Iaith Gymraeg
30 Ionawr 2010**